# Adnewyddu trwyddedau radio masnachol lleol

Ymgynghoriad ar ddarpariaethau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cyfryngau 2024

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 11 Rhagfyr 2024
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 5 Chwefror 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg .......... 3
2. Cefndir .......... 4
3. Gweithdrefnau adnewyddu trwyddedau .......... 6


## Atodiad


A1. Asesiadau effaith .......... 9
A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn .......... 11
A3. Egwyddorion ymgynghori Ofcom .......... 14
A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad .......... 15
A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad .......... 17

# 1. Trosolwg

1.1 Mae Ofcom yn cyhoeddi trwyddedau radio masnachol analog lleol (hy FM neu AM) ar gyfer cyfnodau penodol, sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Ar ddiwedd cyfnod trwydded, caiff y deiliad wneud cais i adnewyddu ei drwydded. Mae'r cyfnod y gellir adnewyddu trwydded ar ei gyfer yn amrywio, yn dibynnu pa bryd rhoddwyd y drwydded ddiwethaf yn dilyn hysbysebu a/neu sawl gwaith mae wedi cael ei hadnewyddu'n flaenorol.

1.2 Hyd yma, dim ond os yw deiliad y drwydded analog hefyd yn darlledu gwasanaeth radio digidol ar amlblecs DAB perthnasol yr oedd modd adnewyddu. Fodd bynnag, ar ôl pasio Deddf Cyfryngau 2024 ('y Ddeddf'), gall trwyddedai nawr wneud cais i adnewyddu os nad oes amlblecs DAB 'addas' ar gael. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut rydyn ni'n bwriadu penderfynu a yw amlblecs yn 'addas' ai peidio.

**Beth rydyn ni'n ei gynnig – yn gryno**

Mae'r newidiadau yn y Ddeddf yn cynnig llwybr newydd ar gyfer adnewyddu trwyddedau masnachol analog lleol i roi cyfle i bawb sy'n dal trwyddedau wneud cais, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn gallu gwneud hynny o'r blaen.

Rydyn ni'n cynnig mai dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol y dylid defnyddio'r sail newydd hon ar gyfer adnewyddu trwydded:

- nad oes amlblecs DAB perthnasol ar gael; neu
- fod amlblecs DAB perthnasol ar gael ond bod ei ardal darpariaeth yn sylweddol llai neu fwy na'r ardal y mae'r trwyddedai'n ei gwasanaethu ar FM neu AM.

Ym mhob sefyllfa arall, rydyn ni'n disgwyl i drwyddedeion (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) wneud cais i adnewyddu drwy enwebu gwasanaeth radio digidol ar amlblecs DAB perthnasol.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

## Adnewyddu trwydded cyn y Ddeddf Cyfryngau

2.1 Ers ei lansio yn 1973 tan ddiwedd yr 1990au, roedd radio masnachol lleol ar gael ar amleddau analog (AM a FM) yn unig. Rhoddwyd trwyddedau i orsafoedd am gyfnod penodol ac roedd yn rhaid iddynt ailymgeisio am eu trwydded mewn cystadleuaeth agored os oeddent am barhau i ddarlledu.

2.2 Roedd datblygu DAB wedi rhoi llwyfan newydd i radio gyrraedd cynulleidfaoedd; un sy'n defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon ac sy'n caniatáu i lawer mwy o orsafoedd radio fod ar gael i ddefnyddwyr. I annog y diwydiant radio i fuddsoddi yn y llwyfan newydd hwn, cafodd y fframwaith statudol ei newid drwy Ddeddf Darlledu 1996 i ganiatáu i drwyddedeion presennol adnewyddu eu trwydded analog os ydynt yn darlledu ar DAB hefyd. Mae'r cymhelliant rheoleiddio hwn, ynghyd â rhoi trwydded i wasanaethau newydd, wedi galluogi radio masnachol lleol i barhau i fod yn sector ffyniannus sydd â chynulleidfa wythnosol o dros 28 miliwn o wrandawyr yn y DU.

2.3 I wneud cais i adnewyddu, rhaid i drwyddedai analog fod yn darparu gwasanaeth ar amlblecs DAB lleol neu ar raddfa fach 'perthnasol'.[1] Nid oes rhaid i'r trwyddedai ddarlledu'r un gwasanaeth ar analog a DAB i wneud cais i adnewyddu, er bod hyn yn digwydd yn aml.

2.4 Yn y ddeddfwriaeth, ystyr amlblecs 'perthnasol' yw amlblecs y mae ei ardal darpariaeth yn cynnwys ardal darpariaeth y gwasanaeth analog masnachol lleol i raddau helaeth.[2] Polisi Ofcom yw ystyried bod amlblecs yn 'berthnasol' at ddibenion cais adnewyddu os yw'n cwmpasu 25% neu fwy o'r boblogaeth oedolion sydd wedi'u cwmpasu gan y drwydded analog dan sylw. Yn dibynnu pryd y cafodd ei rhoi gyntaf, gellir adnewyddu trwydded hyd at bedair gwaith, am gyfanswm o 34 mlynedd.[3]

2.5 Ar ôl adnewyddu trwydded, mae'n rhaid i Ofcom gynnwys amod yn y drwydded sy'n mynnu bod y trwyddedai'n gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod gwasanaeth digidol yn cael ei ddarlledu ar amlblecs a enwebir drwy gydol cyfnod y drwydded sydd wedi'i hadnewyddu.[4] Mae'n bosib y bydd peidio â chydymffurfio â'r amod hwn yn arwain at ddirymu'r drwydded analog.

2.6 Mae'r drefn bresennol ar gyfer adnewyddu trwydded wedi'i nodi yn ein Gweithdrefn adnewyddu ar gyfer trwyddedau analog lleol.

## Adnewyddu trwydded ar ôl y Ddeddf Cyfryngau

2.7 Mae'r broses ar gyfer adnewyddu trwyddedau radio masnachol analog lleol a ddisgrifir uchod yn dal ar waith; nid yw'r Ddeddf Cyfryngau wedi ei newid. Fodd bynnag, mae'r

[1] Adrannau 104A a 104AA o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'u diwygiwyd).
[2] Adran 104A(13) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).
[3] Mae adran 104A o Ddeddf 1990 yn caniatáu adnewyddu trwydded ar un achlysur am gyfnod o 12 mlynedd, os cafodd ei rhoi ddiwethaf cyn 8 Ebrill 2010. Mae adran 104AA yn caniatáu adnewyddu trwydded dair gwaith, am gyfnodau o saith mlynedd, pum mlynedd a deg mlynedd.
[4] Adran 104A(12) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Ddeddf Cyfryngau wedi cyflwyno sail statudol arall i drwyddedeion adnewyddu eu trwydded, *yn ychwanegol* at yr hyn sydd eisoes ar waith.

2.8 Mae'r sail newydd hon ar gyfer adnewyddu wedi'i nodi yn adrannau 104AA (4ZA) – (4ZC) o Ddeddf Darlledu 1990 (y 'Llwybr Adnewyddu Newydd'). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i drwyddedai (yn ei gais i adnewyddu, neu ar unrhyw adeg cyn ystyried y cais hwnnw) gyflwyno'r canlynol i Ofcom:

a) *Datganiad o eglurhad*. Mae hwn yn ddatganiad sy'n nodi nad oedd hi'n bosib i'r ymgeisydd enwebu amlblecs DAB perthnasol oherwydd diffyg argaeledd gwasanaeth amlblecs radio lleol perthnasol neu wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach perthnasol, sy'n addas i anghenion yr ymgeisydd; a

b) *Datganiad o fwriad*. Mae hwn yn ddatganiad sy'n nodi y bydd yr ymgeisydd yn enwebu amlblecs DAB perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib gwneud hynny.

2.9 Dim ond os yw Ofcom yn fodlon nad yw wedi bod yn bosib i'r ymgeisydd enwebu amlblecs DAB perthnasol oherwydd diffyg argaeledd amlblecs DAB perthnasol sy'n addas i'w anghenion y caiff Ofcom adnewyddu trwydded o dan y Llwybr Adnewyddu Newydd.[5]

2.10 Pan fydd Ofcom yn adnewyddu trwydded mewn achos o'r fath, rhaid iddo gynnwys amod yn y drwydded newydd sy'n mynnu bod y trwyddedai'n gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau ei fod:

a) yn gwneud yr enwebiad a ddisgrifir yn y 'Datganiad o fwriad' cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib gwneud hynny;

b) yn dechrau darlledu'r gwasanaeth digidol enwebedig, drwy'r amlblecs DAB perthnasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib ar ôl gwneud yr enwebiad hwnnw.[6]

2.11 Rydyn ni'n ymgynghori ar sut rydyn ni'n bwriadu ystyried ceisiadau i adnewyddu o dan y Llwybr Adnewyddu Newydd.

[5] Adran 104AA(4ZB)(b) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).
[6] Adran 104AA(4ZC) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).

# 3. Gweithdrefnau adnewyddu trwyddedau

## Sicrhau bod adnewyddu ar gael yn ehangach

3.1 Fel y nodwyd uchod, ers diwedd yr 1990au un o brif nodau'r fframwaith trwyddedu radio masnachol yw cymell buddsoddiad mewn DAB gan ei fod yn gwneud defnydd mwy effeithlon o sbectrwm cyfyngedig a gwerthfawr, ac yn rhoi mwy o ddewis i wrandawyr.

3.2 Er bod niferoedd gwrando a refeniw yn parhau i fudo'n raddol i lwyfannau eraill, mae gallu gwneud cais am estyniad diwrthwynebiad i'w trwydded analog wedi rhoi'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd rheoleiddio sydd eu hangen ar lawer o gwmnïau radio masnachol i fuddsoddi mewn DAB, ac wedi arwain at fanteision sylweddol i ddefnyddwyr o ran mwy o ddewis.

3.3 Mae llawer o drwyddedeion wedi elwa ar y prosesau statudol presennol ar gyfer adnewyddu trwyddedau. Er enghraifft, mewn rhai amgylchiadau gall Ofcom ymestyn trwydded analog hyd at flwyddyn ar ôl ei dyddiad dod i ben gwreiddiol er mwyn galluogi'r trwyddedai i fodloni'r meini prawf ar gyfer adnewyddu (hy gallu enwebu gwasanaeth ar amlblecs 'perthnasol').[7] Mae'r fframwaith presennol hefyd yn caniatáu adnewyddu trwydded os nad yw'r trwyddedai'n darparu gwasanaeth digidol, cyn belled â bod tystiolaeth ei fod wedi'i gontractio i wneud hynny.[8]

3.4 Rydyn ni wedi adlewyrchu'r dyluniad hwn yn ein polisïau ein hunain, sydd wedi ceisio cynnig manteision cyffredinol adnewyddu trwyddedau. Yn benodol, rydyn ni'n credu y dylid ystyried amlblecs yn 'berthnasol' i drwydded analog os yw'n cwmpasu o leiaf 25% o'r boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu gan y drwydded analog. Mae'r polisi hwn wedi bod ar waith ers dechrau DAB, ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau i'w newid.

3.5 Rydyn ni hefyd wedi mabwysiadu polisi cyffredinol o adnewyddu trwyddedau o'r dyddiad hwyraf posib, gan sicrhau'r budd mwyaf posib i'r trwyddedai (oherwydd byddai dyddiad adnewyddu cynharach yn arwain at ddyddiad dod i ben cynharach).

3.6 Mae'r darpariaethau newydd yn y Ddeddf Cyfryngau yn ymestyn y cyfle i bob trwyddedai radio masnachol analog lleol adnewyddu trwydded, yn bennaf y rhai nad ydynt wedi gallu ceisio adnewyddu eu trwydded(au) yn flaenorol oherwydd diffyg argaeledd amlblecs DAB 'perthnasol' yn eu hardal sy'n addas i'w hanghenion.

3.7 Yn y *Nodiadau Esboniadol* ar gyfer y Ddeddf Cyfryngau,[9] dywedodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei bod yn disgwyl y bydd "bron pob trwydded yn gymwys i'w hadnewyddu ... ar y sail bod [y trwyddedai] yn darparu gwasanaeth digidol lleol" ond bod y ddarpariaeth adnewyddu newydd "yn adlewyrchu y gallai fod amgylchiadau lle mae gorsaf radio'n bwriadu darlledu'n ddigidol ond nad yw

[7] Adrannau 104A(8) a (9) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'u diwygiwyd).
[8] Adran 104A(6) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd).
[9] Mae Nodiadau Esboniadol yn cael eu paratoi i helpu darllenwyr i ddeall Deddf newydd gan Senedd y Deyrnas Unedig. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth gefndir am ddatblygiad polisi, ond nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf ac nid ydynt yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.

mewn sefyllfa i wneud hynny oherwydd nad oes gwasanaeth amlblecs digidol addas ar gael yn ei hardal ddarlledu".

## Bydd darparu gwasanaeth DAB yn parhau i fod yn sail ar gyfer mwyafrif helaeth y trwyddedau sy'n cael eu hadnewyddu

3.8 Pan fyddwn yn adnewyddu trwyddedau, rydyn ni'n disgwyl y bydd y mwyafrif helaeth yn dal yn cael eu hadnewyddu ar sail darpariaeth DAB. Felly, rydyn ni'n cynnig caniatáu adnewyddu trwyddedau o dan y Llwybr Adnewyddu Newydd mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig, fel a ganlyn:

### Dim amlblecs ar gael

3.9 Os nad oes amlblecs 'perthnasol' (ar raddfa fach neu leol) mewn perthynas â thrwydded analog leol benodol, ni all y trwyddedai hwnnw wneud cais i adnewyddu o dan y darpariaethau statudol presennol. Rydyn ni'n cydnabod y dylent allu gwneud cais i adnewyddu o dan y Llwybr Adnewyddu Newydd.

3.10 Fodd bynnag, gan fod amlblecsau DAB lleol bellach wedi'u trwyddedu i wasanaethu bron pob rhan o'r DU (ac Ynysoedd y Sianel), a bod amlblecsau newydd ar raddfa fach yn cael eu trwyddedu a'u lansio'n rheolaidd mewn ardaloedd ledled y DU,[10] isel yw nifer y trwyddedau analog sydd heb amlblecs 'perthnasol' y gallai'r trwyddedai ddarparu gwasanaeth digidol arno fel rhan o gais i adnewyddu.

### Dim amlblecs 'addas'

3.11 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn glir, hyd yn oed os oes amlblecs 'perthnasol' ar gael, y dylai trwyddedai allu gwneud cais i adnewyddu ei drwydded o dan y Llwybr Adnewyddu Newydd os nad yw'r amlblecs hwnnw'n 'addas' ar gyfer ei anghenion. Felly, rydyn ni wedi ystyried a oes unrhyw amgylchiadau lle na fydd amlblecs sy'n cwmpasu o leiaf 25% o'r boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu gan drwyddedai analog yn cael ei ystyried yn 'addas' o bosib.

3.12 Ein barn ar hyn o bryd yw y gallai fod amgylchiadau cyfyngedig lle nad yw amlblecs 'perthnasol' yn addas i anghenion ymgeisydd os oes gwahaniaeth sylweddol ym maint yr ardal darpariaeth rhwng y gwasanaeth analog a'r amlblecs 'perthnasol' – naill ai o ran darpariaeth poblogaeth neu ddarpariaeth ddaearyddol, neu'r ddau.

3.13 Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd pan fydd darpariaeth y gwasanaeth analog yn gymharol gyfyngedig a'i unig amlblecs 'perthnasol' yw amlblecs lleol (yn hytrach nag amlblecs ar raddfa fach), oherwydd bod gan amlblecsau lleol ardaloedd darpariaeth llawer mwy na thrwyddedau analog llai fel arfer. Mewn amgylchiadau o'r fath, ein barn ar hyn o bryd yw y gallai'r lefel sylweddol o ddarpariaeth ychwanegol nad oes ei hangen ar amlblecs o'r fath ei gwneud yn anaddas i'r trwyddedai analog.

3.14 Hefyd, ar gyfer rhai trwyddedeion analog, efallai fod y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig gan amlblecs 'perthnasol' ar raddfa fach yn sylweddol is na'u hardal darpariaeth eu hunain. Os

[10] Mae'r unig ardaloedd yn y DU heb amlblecs DAB lleol i gyd yn yr Alban – y Gororau, Dumfries a Galloway, a'r Ucheldiroedd. Adeg ysgrifennu hwn, mae 124 o amlblecsau DAB ar raddfa fach wedi cael eu trwyddedu, ac mae 67 ohonynt yn darlledu.

mai dyna'r unig amlblecs 'perthnasol' sydd ar gael iddynt, ein barn ar hyn o bryd yw ei bod hi'n bosib na fydd yn addas i'w hanghenion.

3.15 Byddem yn ystyried unrhyw geisiadau i adnewyddu o dan y Llwybr Adnewyddu Newydd fesul achos, ond rydyn ni'n cynnig y dylem ganolbwyntio ar hyd a lled unrhyw wahaniaeth mewn darpariaeth rhwng y gwasanaeth analog a'r amlblecs 'perthnasol'. Gan fod radio analog a DAB digidol yn wahanol dechnolegau, mae rhywfaint o wahaniaeth i'w ddisgwyl hyd yn oed pan fydd gwasanaethau wedi cael eu trwyddedu i wasanaethu'r un ardal ddaearyddol fwy neu lai. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y darpariaethau adnewyddu presennol, sy'n galluogi amlblecs i fod yn 'berthnasol' hyd yn oed os nad yw'n darparu ar gyfer cyfran fawr (hy 75%) o ardal darpariaeth y drwydded analog dan sylw.

3.16 O ystyried hyn, rydyn ni'n cynnig y dylai'r gwahaniaeth fod yn sylweddol cyn y gall trwyddedai elwa ar y Llwybr Adnewyddu Newydd (yn hytrach na bod yn wahaniaeth o unrhyw fath, er enghraifft). Mae hyn yn sicrhau nad yw'r defnydd o'r llwybr adnewyddu presennol, a darpariaeth gwasanaethau digidol i wrandawyr, yn cael eu tanseilio. Mae hefyd yn adlewyrchu bwriad Senedd y DU y dylai bron pob trwydded barhau i gael ei hadnewyddu ar y sail bod y trwyddedai'n darparu gwasanaeth digidol lleol (gweler paragraff 3.7 uchod).

3.17 Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn wir pan fydd gwasanaeth analog yn gwasanaethu ardal lai o lawer nag amlblecs lleol 'perthnasol'. Gan fod y rhan fwyaf o'r amlblecsau ar raddfa fach wedi cael eu cynllunio ar y sail eu bod yn gallu cynnig darpariaeth sy'n cyfateb yn fras i wasanaeth radio masnachol analog ar raddfa lai (yn hytrach na gwasanaeth radio cymunedol), ein barn ar hyn o bryd yw ei bod yn annhebygol y bydd llawer o amgylchiadau, os o gwbl, lle gallai trwyddedai radio masnachol analog lleol ddadlau'n llwyddiannus bod amlblecs radio ar raddfa fach 'perthnasol' yn anaddas i'w hanghenion gan fod y ddarpariaeth analog yn sylweddol fwy na'r ddarpariaeth amlblecs.

3.18 Mae'n annhebygol y byddem yn derbyn nad oes amlblecs addas am resymau fforddiadwyedd yn unig, ac ni fyddem chwaith yn debygol o ystyried nad oes amlblecs addas mewn achosion lle mae trwydded wedi cael ei hadnewyddu o'r blaen.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid ystyried amlblecs ar raddfa leol neu fach 'perthnasol' yn 'anaddas' mewn perthynas â gwasanaeth analog dim ond os oes gwahaniaeth sylweddol ym maint eu hardaloedd darpariaeth?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu y dylai Ofcom ystyried unrhyw ffactorau eraill (nad ydym wedi'u hystyried yn yr ymgynghoriad hwn) wrth benderfynu a yw amlblecs yn addas i anghenion trwyddedai o dan y Llwybr Adnewyddu Newydd?

# A1. Asesiadau effaith

## Asesiad effaith

A1.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydyn ni'n credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.[11]

A1.2 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Llwybr Adnewyddu Newydd i drwyddedau radio masnachol analog lleol, a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cyfryngau.

A1.3 Nid ydym yn gofyn am farn ar effaith y darpariaethau statudol newydd hyn – a gafodd eu gwneud gan y Llywodraeth fel rhan o'r broses llunio polisi a deddfu. Yn hytrach, rydyn ni wedi ystyried a oes unrhyw effeithiau penodol a allai godi o'r ffordd rydyn ni'n bwriadu defnyddio'r darpariaethau statudol newydd.

A1.4 Yn benodol, mae'r ddeddfwriaeth yn gadael i ni benderfynu a all trwyddedai analog wneud cais i adnewyddu ar y sail nad oes ganddo amlblecs 'addas' i ddarparu gwasanaeth radio digidol arno.

A1.5 Rydyn ni wedi nodi mai ein barn ar hyn o bryd yw y dylid defnyddio'r Llwybr Adnewyddu Newydd dim ond os nad oes amlblecs DAB perthnasol ar gael o gwbl, neu os oes amlblecs DAB perthnasol ar gael ond bod gwahaniaeth sylweddol ym maint ardaloedd darpariaeth yr amlblecs perthnasol a'r gwasanaeth analog.

A1.6 Bwriad hyn yw sicrhau y bydd mwyafrif helaeth y trwyddedau'n parhau i gael eu hadnewyddu ar sail darpariaeth DAB, yn unol â bwriad Senedd y DU fel y mynegwyd yn Nodiadau Esboniadol y Ddeddf Cyfryngau. Mae'n cydnabod bod y Llwybr Adnewyddu Newydd wedi cael ei ddylunio'n benodol ar gyfer y trwyddedeion hynny nad yw darpariaeth DAB yn opsiwn ymarferol iddynt o bosib.

A1.7 Nid ydym yn credu y bydd ein dull gweithredu arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar ddinasyddion a defnyddwyr. Mae ein polisi wedi'i ddylunio i wella'r buddiannau i ddinasyddion a defnyddwyr, gan ei fod yn golygu y bydd mwyafrif helaeth y trwyddedau radio masnachol analog lleol yn parhau i gael eu hadnewyddu ar sail darpariaeth DAB leol. Bydd hyn yn cefnogi darpariaeth barhaus gwasanaethau digidol i wrandawyr, gan gynnal parhad darpariaeth radio masnachol analog ar yr un pryd.

A1.8 Pe bai nifer fwy o drwyddedigion analog yn gallu defnyddio'r Llwybr Adnewyddu Newydd oherwydd ein bod yn barod i dderbyn ystod ehangach o resymau pam nad yw amlblecs perthnasol yn addas, gallai hyn gael effaith niweidiol ar ddinasyddion a defnyddwyr gan fod

[11] Ofcom, Canllawiau asesu effaith, 2023.

risg y byddai llai o ddarpariaeth DAB. Byddai hyn yn golygu llai o wasanaethau i wrandawyr, a byddai hefyd yn anghyson â bwriad y Senedd.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

A1.9 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010[12]. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

A1.10 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[13]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A1.11 Nid ydym yn credu y byddai'r dull polisi arfaethedig sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, nac yn benodol y byddai'n gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

## Y Gymraeg

A1.12 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[14] I roi hyn ar waith, rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[15] Yn unol â hyn, rydyn ni wedi ystyried effaith bosib ein hadolygiad ar (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A1.13 At ei gilydd, nid ydym yn credu y bydd ein penderfyniadau yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydym chwaith yn credu bod unrhyw ffordd o lunio ein cynigion i greu neu i gynyddu effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

---

[12] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[13] Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998.
[14] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
[15] Mae Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

# A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm **ddydd Mercher 5 Chwefror 2025**.

A2.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/analogue-radio/consultation-local-commercial-radio-licence-renewals/. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at mediaact.part5@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl.

A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Ymgynghoriad ar Ran 5 o'r Ddeddf Cyfryngau
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A2.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A2.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A2.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai hi'n bosib i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A2.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â **mediaact.part5@ofcom.org.uk**

## Cyfrinachedd

A2.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A2.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A2.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A2.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A2.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A2.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yng ngwanwyn 2025.

A2.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A2.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.

A2.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydyn ni'n rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydyn ni wrth ein bodd yn cael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A2.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom

Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A3. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosib ein cynigion.

A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydyn ni'n cynnal ein hymgyngoriadau.

A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A3.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y

byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid ystyried amlblecs ar raddfa leol neu fach 'perthnasol' yn 'anaddas' mewn perthynas â gwasanaeth analog dim ond os oes gwahaniaeth sylweddol ym maint eu hardaloedd darpariaeth?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu y dylai Ofcom ystyried unrhyw ffactorau eraill (nad ydym wedi'u hystyried yn yr ymgynghoriad hwn) wrth benderfynu a yw amlblecs yn addas i anghenion trwyddedai o dan y Llwybr Adnewyddu Newydd?